***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 259 (Cy. 36) (C. 13)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Cychwyn Rhif 3) 2023

*Gwnaed - - - - 6 Mawrth 2023*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 29(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 (Cychwyn Rhif 3) 2023.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

**Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 7 Mawrth 2023**

**2.**—(1) Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym, i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben gwneud rheoliadau, ar 7 Mawrth 2023—

(a) adran 4 (gweithdrefn dyletswydd gonestrwydd); a

(b) adran 11 (dehongli "gofal iechyd" a thermau eraill).

(2) Daw'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf i rym ar 7 Mawrth 2023—

(a) adran 25 (rheoliadau); a

(b) adran 28 (pŵer i wneud darpariaeth drosiannol etc.).

(**1**) 2020 dsc 1.

*Eluned Morgan*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

6 Mawrth 2023

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn a wneir gan Weinidogion Cymru yn dwyn i rym ddarpariaethau penodol yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2(1) o'r Gorchymyn hwn yn dwyn i rym y darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ar 7 Mawrth 2023, i'r graddau sy'n angenrheidiol at ddiben galluogi i reoliadau gael eu gwneud o dan y darpariaethau hynny—

(a) adran 4 (gweithdrefn dyletswydd gonestrwydd); a

(b) adran 11 (dehongli "gofal iechyd" a thermau eraill).

Mae erthygl 2(2) yn dwyn i rym adran 25 (rheoliadau) ac adran 28 (pŵer i wneud darpariaeth drosiannol etc.) ar 7 Mawrth 2023.

## NODYN AM Y GORCHMYNION CYCHWYN CYNHARACH

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym drwy Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn:

| *Y Ddarpariaeth* | *Y Dyddiad Cychwyn* | *Rhif O.S.* |
|---|---|---|
| Adran 12 | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 19 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 21 | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 22 | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 24 | 8 Mawrth 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Adran 26 | 8 Mawrth 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Atodlen 1 (yn rhannol) | 1 Ebrill 2022 | 2022/208 (Cy. 66) (C. 9) |
| Paragraff 22 o Atodlen 1 | 1 Hydref 2022 | 2022/996 (Cy. 212)(**2**) |

*Gweler* hefyd adran 29(1) o'r Ddeddf ar gyfer y darpariaethau a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2020 (dyddiad y Cydsyniad Brenhinol).

(**2**) Ni ddyrannwyd rhif i'r offeryn yn y gyfres o Offerynnau Cychwyn.